Pwyllgor Cyllid / Finance Committee
FIN(6)-13-24 P2

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2024-25:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2024



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2024**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Cyllideb Atodol 2024-25:** Memorandwm Esboniadol

Mai 2024






# Cynnwys

**Cefndir** ..... **6**

**Memorandwm Esboniadol** ..... **7**

**Diwygiadau i'r Gyllideb** ..... **8**

Addasiadau Prisio Pensiwn – Staff y Comisiwn ..... 8

Addasiadau Prisio Pensiwn - Aelodau ..... 8

Addasiadau i raddfeydd cyflog ..... 9

**Cwmpas y gyllideb** ..... **11**

# Cefndir

Cafodd Cyllideb y Comisiwn ar gyfer 2024-25 ei chynnwys yn y Cynnig Cyllideb Blynyddol o dan Reol Sefydlog 20.26 ac fe'i cymeradwywyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Tachwedd 2023, ar ôl bod yn destun gwaith craffu gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.

Roedd y cynnig cyllideb yn darparu £72.195 miliwn o Gyllideb Adnoddau i'r Comisiwn gan ddarparu:

- Gwariant o dan reolaeth uniongyrchol y Comisiwn am weithrediadau;
- Y Gronfa Prosiectau (gan gynnwys Cyfalaf);
- Dwy gyllideb wedi'u clustnodi ar gyfer gwaith prosiect penodol;
    - Gwariant sy'n ymwneud â gwaith paratoi ar gyfer Diwygio'r Senedd;
    - Rhaglen waith Ffyrdd o Weithio;
- Dibrisiant (cost nad yw'n arian parod);
- Cost llog ar rwymedigaethau les fel sy'n ofynnol gan Safon Adrodd Ariannol Ryngwladol (IFRS) 16 (cost nad yw'n arian parod);
- Y gyllideb a nodwyd ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau.

Darparwyd £1.800 miliwn ychwanegol ar gyfer addasiadau cyfrifyddu nad ydynt yn arian parod mewn cysylltiad â Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd, a hynny drwy'r gyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a darparwyd £0.101 miliwn ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â swyddfa'r Comisiynydd Safonau a £0.627 miliwn ar gyfer Cymorth y Bwrdd Taliadau.

Gosodir y Memorandwm Esboniadol hwn i gydymffurfio â Rheol Sefydlog 20.32, gan gefnogi newidiadau i'w cynnig i gyllideb gymeradwy'r Comisiwn ar gyfer 2024-25, drwy Gynnig Cyllideb Atodol.



**Cyllideb Atodol 2024-25:** Memorandwm Esboniadol

# Memorandwm Esboniadol

Effaith cyllideb atodol y Comisiwn fydd cynyddu cyllideb gyffredinol y Comisiwn £0.935 miliwn a chynyddu'r gofyniad arian parod net £325 mil i gyfateb. Cynigir yr opsiynau a ganlyn:

- **Cynnydd o £0.275 miliwn yng nghyllideb weithredol y Comisiwn i adlewyrchu'r newid yng nghyfraniad y cyflogwr at gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil;**
- **Gostyngiad yn y gyllideb ar gyfer cyflogau Aelodau a chostau cysylltiedig o £0.096 miliwn i adlewyrchu gostyngiad yng nghyfraniadau pensiwn y cyflogwr;**
- **Cynnydd o £0.456 miliwn yng nghyllideb weithredol y Comisiwn i gyllido addasiad i dair graddfa gyflog isaf y Comisiwn i gydnabod pwysau chwyddiant diweddar.**

# Diwygiadau i'r Gyllideb

## Addasiadau Prisio Pensiwn – Staff y Comisiwn

Gosodwyd cyllideb 2024-25 ar 29 Medi 2023 ac fe'i trafodwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Tachwedd 2023. Roedd yn cynnwys datganiad o fwriad i ofyn am gyllid drwy broses y gyllideb atodol ar gyfer unrhyw daliadau cyflogwr ychwanegol i'w talu gan y Comisiwn o ganlyniad i ailbrisio pensiwn teirblwydd Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Roedd cyllid ychwanegol ar gael gan Drysorlys EF i gyrff a ariennir yn uniongyrchol at y diben hwn. Gosodwyd Cyllideb Ddrafft y Comisiwn cyn yr ailbrisio ac felly nid yw wedi'i chynnwys yn y gyllideb a osodwyd.

Mae'r ailbrisio pensiwn yn golygu bod y lefelau cyfraniad, o 2024-25, sy'n daladwy gan y Comisiwn i'r cynllun pensiwn fel a ganlyn (gyda chyfraddau cyfraniadau blaenorol wedi'u cynnwys i'w cymharu):

| | Presennol (1/4/19 – 31/3/24) | Diwygiedig (1/4/24 – 31/3/27) |
|---|---|---|
| Band 1 (£23,000 ac yn is) | 26.60% | 28.97% |
| Band 2 (£23,001 i £45,500) | 27.10% | 28.97% |
| Band 3 (£45,501 i £77,000) | 27.90% | 28.97% |
| Band 4 (£77,001+) | 30.30% | 28.97% |

Yr effaith ar y gyllideb sy'n ofynnol gan y Comisiwn yw cynnydd o £0.275 miliwn

## Addasiadau Prisio Pensiwn - Aelodau

Cafodd Pensiwn yr Aelodau ei ailbrisio hefyd gan Adran Actiwari Llywodraeth y DU yn ystod blwyddyn ariannol 2023-24 gydag argymhelliad i ostwng cyfradd cyfraniad y cyflogwr o 19.9 y cant i 18 y cant o 1 Ebrill 2024. Mae hyn yn sicrhau gostyngiad cyfatebol yn y swm sydd ei angen ar gyfer y gyllideb o £0.095 miliwn. Unwaith eto, cwblhawyd yr ailbrisiad hwn yn rhy hwyr i'w gynnwys yn y gyllideb a osodwyd.

**Effaith y Gyllideb**

Effaith y ddau brisiad pensiwn fydd:





- **Cynnydd yng nghyllideb y Comisiwn o £0.275 miliwn**
- **Gostyngiad yn y gyllideb o ran Penderfyniad y Bwrdd Taliadau o £0.096 miliwn**
- **Cynnydd yn y gofyniad arian parod net o £0.180 miliwn**
- **Bydd y ddau newid yng nghost y pensiwn yn cael eu cyfuno i'r llinell sylfaen ar gyfer blynyddoedd i ddod.**

## Addasiadau i raddfeydd cyflog

Mae gan y Comisiwn gytundeb cyflog ar waith tan fis Mawrth 2025, sef y sail ar gyfer ei gais am y gyllideb. Fel rhan o drafodaethau parhaus gydag Ochr yr Undebau Llafar am y cytundeb cyflog newydd o fis Ebrill 2025, codwyd mater penodol gan Ochr yr Undebau Llafar sy'n atal trafodaethau rhag bwrw ymlaen ar gyfer y cytundeb cyflog nesaf ar gyfer 2025-26 a'r blynyddoedd canlynol, yw a) bod y graddfeydd cyflog is o fewn y Comisiwn yn methu â bod yn gyson â chwyddiant a b) nad yw'r graddfeydd cyflog hynny yn debyg i'r graddfeydd cyflog cyfatebol yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Comisiwn yn derbyn y farn hon, gan gydnabod bod effaith yr argyfwng costau byw wedi cael ei deimlo'n fwy gan y staff ar gyflogau is a'r angen i godi gyfuwch â chyfraddau marchnad er mwyn recriwtio i'r sefydliad. Nid yw'r Comisiwn, yn unol â gofynion cyllidebol, ond wedi cyllidebu ar gyfer y cytundeb cyflog cyfredol ar gyfer 2024-25. Cynigiwyd addasiad i raddfeydd cyflog gyda chost o £0.456 miliwn. Ni fyddai'r Comisiwn yn gallu cyllido'r newidiadau i'r graddfeydd cyflog o'r cyllidebau presennol oherwydd maint rhaglenni Diwygio'r Senedd a Ffyrdd o Weithio i'w cyflawni yn 2024-25 a'r angen i gynnal adnoddau staffio digonol i wneud hynny.

Byddai'r cynigion yn golygu newid y 3 graddfa gyflog isaf fel a ganlyn:

| Graddfa gyflog | Pwynt cyflog | Presennol | Yr hyn sy'n cael ei gynnig |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Tîm** | 1 | £23,781 | £24,500 |
| **Cymorth Tîm** | 2 | £24,922 | £26,250 |

| Graddfa gyflog | Pwynt cyflog | Presennol | Yr hyn sy'n cael ei gynnig |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Tîm** | 3 | £26,062 | £28,000 |
| **EO** | 1 | £27,365 | £29,400 |
| **EO** | 2 | £28,294 | £30,870 |
| **EO** | 3 | £29,540 | £32,414 |
| **EO** | 4 | £32,840 | £34,034 |
| **HEO** | 1 | £35,158 | £35,736 |
| **HEO** | 2 | £37,015 | £37,523 |
| **HEO** | 3 | £38,847 | £39,399 |
| **HEO** | 4 | £42,635 | £42,635 |

Nid effeithir ar raddau uwch na HEO a byddant yn cynyddu ar y raddfa bresennol. Gofyniad allweddol wrth ddatrys y mater o ran y raddfa gyflog hefyd fu'r angen i gynnal y gwahaniaeth o 5 y cant rhwng bandiau, felly mae angen addasu'r holl fandiau cyflog hyd at HEO band 3 fel y gwelir yn y tabl uchod.

**Effaith y Gyllideb**

Yr effaith fyddai:

- **Cynnydd yng nghyllideb y Comisiwn o £0.456 miliwn**
- **Cynnydd yn y gofyniad arian parod net o £0.456 miliwn**
- **Bydd y gost hon yn cael ei chyfuno i'r llinell sylfaen ar gyfer blynyddoedd i ddod.**





# Cwmpas y gyllideb

Gosodir y cyflwyniad cyllidebol hwn yn unol â Rheol Sefydlog 20 y Senedd i helpu i lunio Cynnig y Gyllideb sy'n ofynnol yn ôl adran 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r cyflwyniad hwn yn ceisio diwygio gofynion Comisiwn y Senedd o ran adnoddau a gofynion y gwariant a reolir yn flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2025.

Mae'r Cynnig Cyllideb Atodol yn awdurdodi defnyddio'r adnoddau net ar gyfer gwasanaethau a dibenion yr Aelodau a Gwasanaethau'r Senedd. Mae'r cynnig yn cynnwys uchafswm yr incwm (neu'r adnoddau cronnus) y gellir ei gadw i'w ddefnyddio ar gyfer y gwasanaethau hynny ac at y dibenion hynny yn hytrach na'i fod yn cael ei dalu i Gronfa Gyfunol Cymru, a'r arian parod y bydd angen ei gael o'r gronfa i dalu am y cyfansymiau net y rhagwelir y bydd y Comisiwn yn gorfod eu talu.

Nodir cyllideb ddiwygiedig 2024-25 Comisiwn y Senedd, sy'n mynd i'r afael â'r gofynion diwygiedig, yn Nhabl 1 isod.

| | |
|---|---|
| **Adnoddau ac eithrio adnoddau cronnus i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd ("y Comisiwn") ar gostau adnoddau a chyfalaf sy'n gysylltiedig â gweinyddu a gweithredu gwasanaethau i gefnogi'r Senedd; hyrwyddo'r Senedd gan gynnwys taliadau i'r Comisiwn Etholiadol ac eraill; taliadau mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau a'r Bwrdd Taliadau; unrhyw daliadau eraill sy'n ymwneud â swyddogaethau'r Senedd neu'r Comisiwn.**<br>Adnoddau ac eithrio adnoddau cronnus i'w defnyddio gan y Comisiwn mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau a gwariant mewn perthynas â darparu Cynllun Pensiwn Aelodau'r Senedd. | **72,830** |
| **Adnoddau cronnus i'w cadw yn unol ag adran 120(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a'u defnyddio gan y Comisiwn:**<br>▪ o'r broses o gael gwared ar asedau sefydlog ac incwm cyfalaf arall i'w ddefnyddio i brynu neu gaffael asedau sefydlog; neu<br>▪ incwm rhent; rhoddion; grantiau; ad-daliadau ac incwm o werthiant masnachol a gwasanaethau eraill a ddarperir i'r cyhoedd ac eraill i'w defnyddio ar gyfer costau gweinyddu'r Senedd. | **£100** |
| Y swm a ddaw o Gronfa Gyfunol Cymru i dalu am y symiau y rhagwelir y bydd angen eu talu o fewn y flwyddyn mewn perthynas â'r gwasanaethau uchod ac at ddibenion ar wahân i dderbynebau y gellir eu cadw a TAW y gellir ei adennill | **68,000** |

Mae tabl 2 isod yn cysoni'r gofyniad adnodd net â'r gofyniad i dynnu arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

| **Tabl 2: Gofyniad Arian Parod** | **£'000 2024-25 Gosodwyd** | **£'000 2024-25 Diwygiedig** |
|---|---|---|
| Gofyniad refeniw net yr Aelodau | 19,180 | 19,084 |
| Swyddfa'r Comisiynydd Safonau | 101 | 102 |
| Costau'r Bwrdd Taliadau Annibynnol | 627 | 634 |
| Diwygio'r Senedd | 666 | 671 |
| Ffyrdd o Weithio | 281 | 281 |
| Gofyniad refeniw net y Comisiwn | 46,391 | 47,109 |
| Gofyniad cyfalaf net | 3,149 | 3,149 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | 1,800 | 1,800 |
| **Is-gyfanswm** | 72,195 | 72,830 |
| Addasiadau | | |
| Dibrisiant | (4,750) | (4,750) |
| Taliadau llog/Addasiadau cyfalaf | (610) | (610) |
| Taliadau rhent | 2,330 | 2,330 |
| Newidiadau mewn darpariaethau | (1,800) | (1,800) |
| Newidiadau o ran y dyledwyr a'r credydwyr | 0 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | (4,830) | (4,830) |
| **Gofyniad arian parod net o Gronfa Gyfunol Cymru** | 67,365 | 68,000 |
| **Cynnydd mewn gofyniad arian parod** | | **635** |